Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol
# Carmel
# National Nature Reserve

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Carmel

**Fe welwch chi dapestri cyfoethog o gynefinoedd gan gynnwys coetir hynafol, glaswelltir llawn blodau a chwareli segur. Peidiwch ag anghofio am ein tirlyn, sy'n lyn tymhorol unigryw.**

**Hen chwareli ac odynnau calch**
Yr hen chwareli yw'r nodweddion cyntaf yr ydych yn debygol o sylwi arnynt: mae calchfaen wedi'i gloddio yn Nyffryn Gwenlais ers yr Oesoedd Canol, a dechreuodd y gwaith o greu calch masnachol, gan ddefnyddio odynnau, yn y 19eg ganrif.

**Sgerbydau a bwyelli**
Ond mae pobl wedi byw yma ers blynyddoedd lawer cyn hynny. Cafwyd hyd i sgerbydau hynafol mewn ogofâu yn chwarel Pant-y-llyn a darganfuwyd bwyell fflat o'r Oes Efydd yma yn 1962.

**Llyn sy'n diflannu**
Does dim nentydd yn llifo i mewn nac allan o dirlyn Pant y Llyn. Dim ond dŵr daear sydd mewn tyllau yn y calchfaen o dan y ddaear sy'n bwydo'r llyn. Mae'n llenwi yn y gaeaf ac yn gwacáu yn y rhan fwyaf o hafau.

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru **www.welshwildlife.org** yn gofalu am rannau gorllewinol y warchodfa ar bwys Pentref Carmel (ddim yn cael ei ddangos ar y map).

## Welcome to Carmel National Nature Reserve

**You will find a rich tapestry of habitats including ancient woodland, flower-rich grassland and disused quarries. Don't miss our unique seasonal lake – a *turlough*.**

**Old quarries and limekilns**
The first features you are likely to notice are the old quarries: limestone has been extracted from the Gwenlais Valley since the Middle Ages, while commercial lime manufacture, using kilns, began here in the 19th century.

**Skeletons and axes**
But people have been here much longer than that. Ancient skeletons have been found in caves at the Pant-y-llyn quarry and a Bronze Age flat axe was discovered here in 1962.

**A disappearing lake**
No streams flow in or out of the turlough called Pant y Llyn ('hollow of the lake'). The lake is fed solely by groundwater sitting in holes in the underlying limestone. It fills up in winter and empties in most summers.

The Wildlife Trust of South and West Wales **www.welshwildlife.org** looks after the western sections of the reserve next to Carmel village (not shown on map).



un o'r golygfeydd | one of the views

## Beth i chwilio amdano

### Yn y gwanwyn:
- Mwynhewch garpedi o glychau'r gog, bresych y cŵn, craf y geifr a blodau'r gwynt yn y goedwig
- Ewch i chwilio am degeirianau wrth ymyl y llwybr i'r chwarel

### Yn yr haf:
- Chwiliwch am blanhigion prin fel lili'r dyffrynnoedd, cwlwm cariad a'r deintlys yn y goedwig
- Mwynhewch flodau'r glaswelltir calchfaen fel pys-y-ceirw, y penrhudd, troed-y-golomen a chlychau'r eos
- Chwiliwch yn ofalus am adar y coetir fel y dringwr bach, y gnocell fraith fwyaf a'r tingoch

### Yn yr hydref:
- Fforiwch am ffyngau yn y goedwig a chapiau cwyr llachar yn y glaswelltiroedd
- Mwynhewch liwiau'r hydref a chiciwch dipyn o ddail

### Mwy o fywyd gwyllt i chwilio amdano:
- Mae'r pathew yn mwynhau'r coed llai fel y gollen, y cwyrosyn, y ddraenen wen, y rhafnwydden a'r biswydden
- Mae cannoedd o lyffantod yn heidio i'r llyn i silio yn y gwanwyn (gan fentro croesi'r ffordd yn y nos!).


## What to look out for

### In spring:
- Enjoy carpets of bluebells, dog's mercury, ramsons and wood anemone in the woods
- Go orchid hunting next to the path into the quarry

### In summer:
- Look out for rare plants like lily-of-the-valley, herb paris and toothwort in the woods
- Enjoy limestone grassland flowers such as bird's foot trefoil, marjoram, aquilegia and harebell
- Try to spot woodland birds like treecreepers, great spotted woodpeckers and redstarts

### In Autumn:
- Forage for fungi in the woods and brightly coloured wax caps in the grasslands
- Take in the autumn colour and kick some leaves

### Other wildlife to look out for:
- Dormice enjoy the smaller trees like hazel, dogwood, hawthorn, buckthorn and spindle
- Hundreds of toads make their way to the lake to spawn in spring (risking their lives crossing the road at night!).




tegeirian cors y de
southern marsh orchid

tingoch
redstart

Tirlyn **Pant y Llyn** Turlough

deintlys
toothwort

### Llwybr y Chwarel
### Quarry Walk

**Anodd | Difficult**

Pellter | Distance: 1¼m | 2km
Amser | Time: 1 awr | hour
Dringo – dringfa serth | Climb – steep climb:
265 troedfedd/ft | 80m

**UCHAFBWYNTIAU:** Mwynhau'r golygfeydd o ben uchaf y chwarel, gwledd o glychau'r gog yn y coed a darganfod y ***tirlyn*** - y llyn sy'n diflannu.

**HIGHLIGHTS:** Taking in the views from the top of the quarry, woodland bluebell displays and discovering the ***turlough*** – the disappearing lake.

Helpwch ni i amddiffyn Carmel trwy ddilyn y Cod Cefn Gwlad a chofiwch: ***Barchu; Diogelu; Mwynhau***

### AR GYFER EICH DIOGELWCH:
- Rhybudd! Mae wynebau'r chwarel yn serth - cadwch at y llwybrau a pheidiwch â mynd yn agos at yr ymylon.
- Rhybudd! Mae perygl i greigiau syrthio - cadwch oddi wrth waelod llethrau'r chwarel.
- Odynnau calch segur a hen weithfeydd chwarel - peidiwch â mynd atyn nhw nac i mewn iddyn nhw - peryglus!
- Ogofâu - dim ond ar gyfer ogofwyr profiadol gydag offer.
- Llwybrau serth gyda cherrig rhydd ar yr wyneb - gwisgwch esgidiau cerdded.

Please help to protect Carmel by following the Countryside Code and remember to: ***Respect; Protect; Enjoy***

### FOR YOUR SAFETY:
- Warning! Steep quarry faces - keep to the paths and do not approach quarry edges.
- Warning! Risk of falling rocks – keep away from the bottom of the quarry slopes.
- Disused lime kilns and old quarry workings - do not approach or enter - dangerous!
- Caves - only for experienced and equipped cavers.
- Steep paths with a loose stone surface - wear hiking boots.


© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Rhagfyr 2017 © Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – December 2017


Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.
Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

| | |
|---|---|
| P | parcio / parking |
| i | gwybodaeth / information |
| | ffin y GNG / NNR boundary |
| | llwybr cyhoeddus / public footpath |
| | ffordd a ddefnyddir yn llwybr cyhoeddus / road used as a public path |
| | llwybrau cyswllt / link paths |
| | llwybrau cerdded / walking trails |
| | lle picnic / picnic area |
| | golygfan / viewpoint |


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government